

YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

DOGFEN YMGYNGHOROL

Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn

Ysgol Y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol

Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel

*Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r
plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir
cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial
addysgol llawn*

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Rhif Ffôn: 01267 246617

Ar 25 Mehefin 2018, yn unol â Chynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Lleol [Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin](#) a'n gweledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Gyda golwg ar hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am roi'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'w gymunedau ac mae'n credu y gellir cyflawni hyn drwy amcanion penodedig. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwbl gefnogol i'r nod bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a bydd yn darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd da ar gyfer holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny'n eu galluogi i wireddu eu llawn potensial fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r Sir.

Mae'r Awdurdod Lleol nid yn unig yn cefnogi'r weledigaeth hon, ond mae'n llwyr gefnogol i Gymru ddwyieithog. Ar 10 Gorffennaf 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r ddogfen yn rhoi ystyriaeth i dair prif thema:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- Chreu amodau ffafriol, seilwaith a chyd-destun

Mae'n rhaid inni ystyried pob un o'r rhain yn ein hardal leol ein hunain lle y gall ein system addysg gefnogi, datblygu a chynnal dwyieithrwydd.

Er mwyn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol o ran symud ysgolion y sir ar hyd continwrm y Gymraeg, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi cynigion o ran newid natur darpariaeth y Cyfnodau Sylfaen yn **Ysgol Y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr** ac **Ysgol Llys Hywel**.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yng [Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018](#) ac yn cynnwys partiön penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ND	Nifer derbyn
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
CC	Cynradd Cymunedol
Dff	Dwy Ffrwd
CS	Cyfrwng Saesneg
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
CALI	Cyferwerth ag Amser Llawn
ALI	Awdurdod Lleol
MCYC	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
RhMA	Rhaglen Moderneiddio Addysg
NOR	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion
RhA	Rhan-amser
WESP	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
LIC	Llywodraeth Cymru
CC	Cyfrwng Cymraeg

Rhif	Pwnc	Tudalen
1	Cyflwyniad	6
2	Darpariaeth Drochi Gynnar drwy Gyfrwng y Gymraeg	7
3	Dwyieithrwydd	8
4	Y broses ymgynghori	14
5	Yr ysgol(ion) sy'n destun cynigion	19
6	Y Cynnig - Ysgol Y Ddwylan	21
7	Y Cynnig - Ysgol Griffith Jones	38
8	Y Cynnig - Ysgol Llangynnwr	56
9	Y Cynnig - Ysgol Llys Hywel	74

1. Cyflwyniad / Cefndir / Y Rhesymeg dros Newid

Y Ddarpariaeth Bresennol / y Sefyllfa Bresennol / Cefndir

Mae'r holl ysgolion sy'n destun y cynigion a gyflwynir yn y ddogfen hon: Ysgol Y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel yn ysgolion cynradd dwy ffrwd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am roi'r addysg orau posibl i bob disgybl ac mae'n credu bod darparu cyfleoedd dwyieithog yn chwarae rhan yn hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 sydd yn ceisio symud ysgolion ar hyd continwrm y Gymraeg. Yng ngoleuni hyn, y ffordd orau o greu unigolion dwyieithog, hyderus yw drwy drochi'r disgyblion yn y Gymraeg o oedran cynnar iawn.

Y Rhesymeg dros Newid

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. I gyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol, yn unol â 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg':

"Sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle"

O ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig:

- bod natur darpariaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn newid o 1 Medi 2020 i addysg cyfrwng Cymraeg, gyda darpariaeth Dwy Ffrwd yn parhau o Gyfnod Allweddol 2 (CA2).

Bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd dwyieithog ac amlieithog yn unol â'r cwricwlwm newydd a fydd yn cael ei lansio yn 2022.

Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, byddai holl ddisgyblion y dyfodol yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn derbyn eu haddysg Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r dewis o gyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2.

Bydd y cynnig hwn yn cyflawni'r 7 deilliant isod fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru yng 'Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin':

- Deilliant 1: Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 2: Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Deilliant 3: Cael rhagor o fyfyrwyr 14-16 oed i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg i ennill cymwysterau

- Deilliant 4: Cael rhagor o fyfyrwyr 14-19 oed i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau, a dysgu seiliedig ar waith
- Deilliant 5: Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg
- Deilliant 6: Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Yn ogystal bydd y cynnig hwn yn cysylltu â pholisïau Llywodraeth Cymru fel y nodir isod:

- Ailysgrifennu'r Dyfodol
- Dyfodol Llwyddiannus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Strategaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru; a
- Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif

2. Darpariaeth Drochi Gynnar drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r dull trochi yn canolbwyntio ar ddefnyddio Cymraeg fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu, gan ddefnyddio technegau ymarferol a gweledol i helpu plant a disgyblion i ddatblygu geirfa a chystrawen. Hanfod y dull hwn yw cyflwyno a modelu iaith dda. Mae'r dystiolaeth ryngwladol hefyd yn cadarnhau mai'r 'ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra'n datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin.' Nid oes angen i blant bach ddysgu iaith yn yr un modd ag oedolion. Maent yn amsugno ieithoedd os ydynt yn eu clywed yn ddigon aml.

Dengys toreth o ymchwil bod buddsoddi ym mlynnyddoedd bore oes plentyn yn gwella'r deilliannau ar ei gyfer am weddill ei fywyd.

Bydd y newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol.

Fel y dangosir gan ymchwil, mae presenoldeb dwy iaith yn system weithredu'r ymennydd yn debygol o gynhyrchu peiriant meddwl ag adnoddau mwy cyfoethog (Baker, 2000:66-67). Felly, mae'r cynnig hwn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gyrraedd eu potensial llawn fel dysgwyr dwyieithog.

3. Dwyieithrwydd

3.1 Manteision bod yn ddwyieithog

Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

Y gallu i fyw eich bywyd bob dydd yn defnyddio dwy iaith.

Y gallu i newid o un iaith i'r llall yn rhugl a hyderus pan fyddwch yn dymuno.

Addysg

- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus mewn addysg. Maent yn tueddu i gyflawni'n well mewn tasgau.
- Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol.
- Mae plant mewn addysg Gymraeg yn gwneud gystal, os nad gwell, yn Saesneg â phlant sy'n cael addysg Saesneg.

Tystiolaeth:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Saesneg%20yng%20nghyfnodau%20allweddol%202%20a%203%20-%20Mehefin%202014.pdf>

Gyrfa

- Mae siarad dwy iaith yn rhoi sgîl arall i'w roi ar eich ffurflen gais a'ch CV.
- Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol.
- Mae angen gweithleoedd dwyieithog ar gyflogwyr, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â'r Papur Safonau Cymraeg.

Tystiolaeth: <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-speakers-more-likely-top-6335953>

Nigel Owens

“Heb fy addysg Gymraeg yn yr Ysgol fydden i ddim wedi cael yr holl gyfleoedd i gyflwyno a pherfformio a fydden i ddim wedi cael fy annog i ddechrau dyfarnu yn 16 oed.

Rwy'n cario'r Gymraeg da fi ble bynnag dwi'n dyfarnu yn y byd. Cyn pob ge' m rwy'n gwrandio ar gerddoriaeth Gymraeg. Dwi'n ddigon ffodus i gael dwy iaith ac mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o pwy ydw i. ”



Alex Jones

“Mae'r ffaith fy mod wedi derbyn addysg ddwyieithog wedi bod yn hollol ganolog yn fy natblygiad fel person ac i'm gyrfa fel darlledydd. Golyga fod y cyfleoedd oedd ar agor i mi wedi dyblu, fod fy ngallu i ddysgu ieithoedd eraill wedi cynyddu a'r ddawn holl bwysig i gyfathrebu a gwneud ffrindiau wedi eu ehangu yn ddirfawr. Yn fwy na dim mae'r gafael sydd gennyf ar ddwy iaith wedi rhoi i mi deimlad arbennig o gryf o berthyn ac o dreftadaeth. Rhoddodd y cychwyn a gefais fel darlledydd yn y Gymraeg y profiad eang a oedd angen arnaf i symud ymlaen tuag at swydd fy mreuddwydion. Heb fy addysg ddwyieithog fe fyddwn mewn lle gwahanol iawn heddiw. ”



Iechyd

- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad Dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.

Tystiolaeth: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3033609/>
<http://www.telegraph.co.uk/news/science/science-news/12005837/Bilingual-people-twice-as-likely-to-recover-from-a-stroke.html>

Bywyd

- Mae siarad dwy iaith yn ehangu eich gorwelion.
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi mynediad i agweddau helaeth ar ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru.

- Mae medru'r Gymraeg yn allwedd i fywyd cymunedol cyfoethog.
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn.
- Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn.
- Gall pobl amlieithog fod yn fwy goddefgar tuag at ddiwylliannau eraill.

Tystiolaeth:

http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/paper_3_-_prof._colin_baker.pdf%20-%202002092010/paper_3_-_prof._colin_baker-English.pdf

3.2 Pryderon cyffredin rhieni

'Sut alla i helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn os nad ydw i'n siarad llawer o Gymraeg?'

Mae disgyblion mewn ysgol/ffrwd Gymraeg yn cael cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plentyn ei wneud. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg a bydd y nosweithiau rhieni yn eich dewis iaith chi.

Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe fydd, felly, o fewn cyrraedd i'ch plentyn.

Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y byddant yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol gan rieni.

'A fydd disgyblion sy'n cael trafferth â'r iaith Gymraeg yn gorfod symud i ysgol cyfrwng Saesneg?'

Mae'r Awdurdod Lleol am i bob disgybl gael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddir cymorth i'r holl ddisgyblion yn ôl yr angen drwy amrywiaeth o ddulliau gan eu haddasu at anghenion yr unigolyn.

'Bydd y plant yn drysu a bydd eu Saesneg yn dioddef.'

Ar gyfartaledd, mae plant dwyieithog yn cyflawni'n well yn Saesneg. Hefyd, drwy esbonio'r gwaith cartref i'w rhieni yn Saesneg, mae'r plentyn yn atgyfnerthu ei wybodaeth, a dyfnhau ei ddealltwriaeth ei hun. Gofynnwch i'ch plentyn ddisgrifio'r hyn y mae'n ei gwneud yn ei eiriau ei hun.

'A fydd bod yn ddwyieithog yn effeithio ar feddwl fy mhlentyn?'

Yr ateb yw 'bydd', a hynny mwy na thebyg er gwell. Mae presenoldeb dwy iaith yn system weithredu'r ymennydd yn debygol o gynhyrchu peiriant meddwl ag adnoddau mwy cyfoethog (Baker, 2000:66-67).

'A fydd fy mhlentyn yn gallu ymdopi â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?'

Mae'r ysgol a'r staff wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r holl ddisgyblion a rhieni drwy amrywiaeth eang o ddulliau: polisi drws agored; darparu gwaith cartref yn ddwyieithog; cefnogaeth gan Wasanaeth yr Athrawon Bro; gwefan ysgol ddwyieithog ac ati. Hefyd mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl.

'A ddylid gorfodi'r Gymraeg?'

Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Mae hyn yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.

'A fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar gyfleoedd yn y dyfodol?'

Yr ateb yw 'bydd', ond mwy na thebyg er gwell. Barn yr Adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith a chydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.

'A yw dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwahanu disgyblion/teuluoedd sy'n siarad Saesneg?'

I'r gwrthwyneb, mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd. Mewn ysgolion/ffrydiau cyfrwng Cymraeg mae'r plant yn derbyn eu haddysg drwy

gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng addysgu. Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn helpu aelodau'r gymuned/teulu drwy roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

'A fydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?'

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.

3.3 Dwyieithrwydd yn Sir Gaerfyrddin

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- **Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids- give it a go!**

<http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf>

Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.

- **Bod yn Ddwyieithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire**

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216432/being-bilingual.pdf>

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyieithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyieithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.

- **Croeso i Gymru Croeso i Sir Gâr Croeso i'r Gymraeg**

<http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf>

Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyieithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.

4. Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Â phwy arall yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partiön canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Ategol)	Cyfarwyddwr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelod Cynulliad (AC) / Aelodau Rhanbarthol / Aelodau Seneddol (AS)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos
Gweinidogion Cymru	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
Cymunedau am Waith +	Partneriaid Anghenion Addysgol Arbennig
Cymunedau am Waith	Yr holl undebau perthnasol
Y Gronfa Waddol	Cyfuno
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	ERW – Ein Rhanbarth ar Waith
Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin	Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
Dechrau'n Deg	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Comisiynydd y Gymraeg	

***Anfonir copïau o'r ddogfen ymgynghori at y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn yr ysgolion sy'n destun cynigion o fewn y dalgylch cyfagos**

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 20 Mai 2019 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2019.

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 16.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=154832236066>

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 30 Mehefin 2019:

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprema@sirgar.gov.uk

Sesiynau galw heibio

Bydd cyfle i fynd i sesiwn galw heibio i ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig ar y dyddiadau a'r amserau canlynol:

Lleoliad	Dyddiad	Amser
Ysgol Llys Hywel	4 ^{ydd} Mehefin 2019	5-7pm
Ysgol Y Ddwylan	5 ^{ed} Mehefin 2019	5-7pm
Ysgol Griffith Jones	6 ^{ed} Mehefin 2019	5-7pm
Ysgol Llangynnwr	7 ^{fed} Mehefin 2019	5-7pm

Ewch i'r lleoliad sy'n berthnasol i'r ysgol sy'n destun cynnig yr hoffech ei thrafod, ac ar y dyddiad a'r amser perthnasol.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgolion sy'n destun cynnig gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Adroddiad Ymgynghori

Bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn y gwneir penderfyniad i gyhoeddi rhybudd statudol ai peidio. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynnig. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

Penderfynu ynghylch y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r

cynnig gyda newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i'w law.

Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

20 Mai 2019	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
30 Mehefin 2019	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
10 Medi 2019	Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn y gwneir penderfyniad i gyhoeddi rhybudd statudol ai peidio. NEU fod y cynnig yn dod i ben. Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r disgyblion, i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol. Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.
Hydref 2019	Diwedd y cyfnod statudol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.
Chwefror 2020	Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.

	Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl barfïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.
--	---

5. Ysgol(ion) sy'n destun cynnig

		Ysgol Y Ddwylan	Ysgol Griffith Jones	Ysgol Llangynnwr	Ysgol Llys Hywel
Lleoliad yr Ysgol		Castellnewydd Emlyn, SA38 9BA	Heol yr Orsaf, Sanclêr, SA33 4BT	Lôn Penymorfa, Pen-sarn, Caerfyrddin SA31 2NN	Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0QB
Ystod Oedran		4-11	3-11	3-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori Iaith		Dwy Ffrwd	Dwy Ffrwd	Dwy Ffrwd	Dwy Ffrwd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2018)	Oedran Meithrin	24	50	37	14
	Derbyn – B.6	340	255	273	117
	Cyfanswm	364	305	310	131
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol	lonawr 2017	327	288	322	134
	lonawr 2016	315	281	319	125
	lonawr 2015	314	272	311	112
	lonawr 2014	293	258	289	112
Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion	lonawr 2019	364	312	313	138
	lonawr 2020	347	296	311	143
	lonawr 2021	337	295	316	145
	lonawr 2022	333	300	316	147
	lonawr 2023	327	291	316	140
Nifer y lleoedd (Yn cynnwys oedran meithrin)		337	337	301	164
Y Gost y Disgybl		£3,434	£3,320	£3,302	£3,727

Cyllideb yr Ysgol	£1,250,000	£958,000	£992,000	£492,000
Categoreiddio Ysgolion 2018	Oren	Melyn	Gwyrdd	Gwyrdd
Canlyniad Arolygiad Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad	B	B	B	B

6. Y Cynnig - Ysgol Y Ddwylan

Y Cynnig

Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.


Cefndir

Ysgol gynradd dwy ffrwd yng Nghastellnewydd Emlyn yw Ysgol Y Ddwylan. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Y Rhesymeg dros Newid

Data'r Cyfnod Sylfaen

Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng y ffrydiau iaith a nifer y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Ddwylan rhwng Ionawr 2014-2018.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Ddwylan gryn dipyn yn is na'r rheiny sy'n mynychu ffrwd Gymraeg y Cyfnod Sylfaen. Roedd nifer y disgyblion yn ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn amrywio rhwng 18-52 yn ystod Ionawr 2014-2018 tra bod nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn amrywio rhwng 100-145 o ddisgyblion.

Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae 66% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg a 34% yn unig sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg (Ionawr 2018).

O gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (364 o ddisgyblion), mae nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 14% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Data'r Ysgol Gyfan

		Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
2018	Cyfrwng Cymraeg	103	105	208
	Cyfrwng Saesneg	52	104	156
	Cyfanswm	155	209	364
2017	Cyfrwng Cymraeg	100	101	201
	Cyfrwng Saesneg	51	75	126
	Cyfanswm	151	176	327
2016	Cyfrwng Cymraeg	103	91	194
	Cyfrwng Saesneg	52	69	121
	Cyfanswm	155	160	315
2015	Cyfrwng Cymraeg	145	73	218
	Cyfrwng Saesneg	18	78	96
	Cyfanswm	163	151	314
2014	Cyfrwng Cymraeg	119	73	192
	Cyfrwng Saesneg	25	76	101
	Cyfanswm	144	149	293

(Data CYBLD Ionawr)

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae nifer y plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn fwy na nifer y plant sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen.

Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar yn y Gymraeg o oedran ifanc.

- Caniatáu i ddisgyblion gael sylfaen gadarn yn y Gymraeg
- Darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Anfanteision

- Gwrthwynebiad posib gan y gymuned leol i'r cynnig
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Mesurau i Liniaru'r Risgiau
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Y Ddwylan ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Y Ddwylan.

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Dewis 1 – Y Sefyllfa Bresennol- dim newid i natur y ddarpariaeth

Manteision	Anfanteision
Ni fydd angen proses statudol	Nid yw'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid	Nid yw'n cyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir

Dewis 2 – Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 Dwy Ffrwd)

Manteision	Anfanteision
Cynyddu sgiliau ieithyddol cynnar y disgyblion	Angen proses statudol
Cadw'r hawl i rieni ddewis y cyfrwng iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	
Cefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	

Dewis 3 – Newid natur darpariaeth yr ysgol gyfan (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 Cyfrwng Cymraeg)

Manteision	Anfanteision
Cynhyrchu dinasyddion dwyieithog	Angen proses statudol
Cyflawni nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir	

Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

Ysgolion y gallai'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Y Ddwylan effeithio arnynt:

		Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Penboyr	Ysgol Gynradd Hafodwenog	Ysgol Gymunedol Cynwyl Elfed	Ysgol Clydau	Ysgol y Frenni	Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran	Ysgol Gymunedol Beulah	Ysgol Gymunedol Cenarth	Ysgol Gymunedol Trewen
Lleoliad yr Ysgol		Felindre, Llandysul, SA44 5XG	Trelech, Caerfyrddin, SA33 6RU	Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6TR	Tegryn Llanfyrnach Sir Benfro SA35 0BE	Crymych Sir Benfro SA41 3QH	Cilgerran Aberteifi Sir Benfro SA43 2SB	Beulah Castellnewydd Emlyn Ceredigion SA38 9QB	Cenarth Castellnewydd Emlyn Sir Gaerfyrddin SA38 9JP	Cwm-cou Castellnewydd Emlyn Ceredigion SA38 9PE
Sir		Sir Gaerfyrddin			Sir Benfro			Ceredigion		
Ystod Oedran		4-11	4-11	4-11	4-11	3-11	3-11	4-11	3-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Gwirfoddol a Gynorthwyir	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Gwirfoddol a Reolir	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori Iaith		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2018)	Oedran meithrin	6	5	7	0	10	14	0	7.5	0
	Derbyn – B.6	75	29	66	48	172	107	18	42	18
	Cyfanswm	81	34	73	48	182	121	18	49.5	18
Nifer y disgyblion ar y	lonawr 2017	103	36	71	58	179	120	19	55 + 6	40

gofrestr yn flaenorol	Ionawr 2016	112	35	78	63	203	132	29	65 + 6.5	48
	Ionawr 2015	106	39	74	53	206	131	31	67 + 11	52
	Ionawr 2014	120	40	69	53	199	129	29	68 + 6.5	52
Amcanestynia d ynghylch Nifer y Disgyblion	Ionawr 2019	77	35	80	55	172	115	19	42	16
	Ionawr 2020	72	34	84	57	172	120	13	37	15
	Ionawr 2021	74	37	88	56	168	117	11	38	12
	Ionawr 2022	75	38	88	59	161	121	10	40	10
	Ionawr 2023	76	39	91	58	159	122	7	38	10
Lle		101	86	94	71	210	133	41	73 + 10 yn y dosbarth meithrin	58
Y Gost y Disgybl		£3,617	£4,665	£3,375	£5063	£3831	£4000	£7607	£4630	£8480
Cyllideb yr Ysgol		£297,000	£159,000	£246,000	£243,000	£678,000	£456,000	£136,917	£229,196	£152,636
Categoriaddio Ysgolion 2018		Gwyrdd	Oren	Oren	Melyn	Melyn	Melyn	Oren	Oren	Oren
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		B	B	B	C	A	B	C	C	C

Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Ansawdd a safonau mewn addysg

Safonau yn y Cyfnod Sylfaen

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ac o un cyfnod i'r llall. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos gwybodaeth gadarn o safbwynt sgiliau llythrennedd a rhifedd ac mae eu sgiliau TGCh yn datblygu'n briodol.

Profiadau dysgu ac addysgu

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith addysgu, a'i effaith ar ddysg a chynnydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r systemau i arwain a gwella dysgu ac addysgu wedi'u datblygu a'u sefydlu'n llawn. Mae'r gwaith o nodi a rhannu arferion effeithiol a'u heffaith ar wella dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol gyfan yn datblygu'n briodol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, sy'n parchu llais a llesiant y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn dda ac o ganlyniad mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd, megis gemau ar y maes chwarae a gweithgareddau milltir y dydd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion ychwanegol y disgyblion yn gryf a chaiff eu hanghenion eu nodi'n gynnar.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu gweledigaeth ac amcanion strategol. Mae arweinwyr yn rheoli newid yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd. Mewn ardaloedd eraill, nid yw newid wedi'i wreiddio'n llwyddiannus ac felly nid yw'n arwain at welliant parhaus. Mae hunan-arfarnu yn effeithiol mewn rhai ardaloedd ond nid mewn eraill.
- Mae gan yr arweinwyr a'r staff ddealltwriaeth glir o'r angen i wella deilliannau ond nid yw'r targedau a'r disgwyliadau ar gyfer cyflawniad y disgyblion yn y dyfodol bob amser yn ddigon heriol.
- Mae'r arweinwyr a'r staff yn manteisio ar gyfleoedd i weithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r cydweithio yn datblygu'n dda, er enghraifft y prosiect llythrennedd clwstwr.

Effaith y cynnig ar yr uchod

- Mae'n destun pryder bod yna ostyngiad ar hyn o bryd yn nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn, o bosibl yn sgil effaith uniongyrchol ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 gyfagos y mae rhieni yn dewis anfon eu plant iddi oherwydd y 'gofal cofleidiol' a gynigir yno.
- Mae angen i ni ystyried yr effaith hirdymor ar Ysgol Gyfun Emlyn sydd ar hyn o bryd yn profi cwymp sylweddol mewn niferoedd disgyblion oherwydd y dylifiad o ddisgyblion sy'n dewis yr ysgol 3-19 cyfrwng Cymraeg gyfagos. Bydd cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Ddwylan yn cefnogi'r diwylliant cyfrwng Cymraeg sy'n datblygu yn Ysgol Emlyn, yn unol â nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Ar hyn o bryd caiff disgyblion eu haddysgu ar draws 14 dosbarth. Ceir 8 dosbarth cyfrwng Cymraeg a 6 dosbarth cyfrwng Saesneg. Mae'r dosbarthiadau meithrin a derbyn yn Gymraeg yn unig ac mae'r rhieni yn dewis ffrwd iaith o flwyddyn 1 ymlaen.
- Bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2018

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Y Ddwylan yn dangos, o'r 364 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 138 yn byw yn y dalgylch a bod y 226 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd 9 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol y Ddwylan yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 138 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Y Ddwylan, a'r 9 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 147 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Y Ddwylan.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / clwb brecwast / llyfrgell gymunedol

Mae Ysgol Y Ddwylan yn cynnig Clwb Brecwast, Clwb ar ôl Ysgol a Chlwb Gofal Gwyliau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae / Cyngor Cymuned

Defnyddir y neuadd gan grwpiau lleol ar gyfer gwersi ffitrwydd. Yn ogystal, mae adran yr Urdd leol hefyd yn defnyddio'r neuadd o bryd i'w gilydd.

Effaith y cynnig ar yr ysgol/y gymuned

Bydd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod cymuned Castellnewydd Emlyn yn parhau i ffynnu fel cymuned ddwyieithog a bydd yn helpu i wireddu uchelgais genedlaethol Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynharach.

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Castellnewydd Emlyn.

Categori Iaith

Mae Ysgol Y Ddwyllan yn Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd.

Y Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 79.2% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)', ac roedd 33.3% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 94.1% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac roedd 29.4% wedi cyflawni o leiaf Lefel 5.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r ysgol yn cynnig o leiaf 7 clwb allgyrsiol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhain yn amrywio o weithgareddau creadigol i glwb chwaraeon.

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r

rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yr Asesiad) – y broses i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Chwefror 2019 Dyddiadau adolygu: Chwefror 2020
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Ddwylan, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn Gyfrwng Cymraeg.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestru yn unig)		
• Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2018		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.	Mae'r cynnig yn ceisio ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin a gweledigaeth yr awdurdod o greu Sir Gaerfyrddin ddwyieithog trwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Ddwylan.		
Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-	2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith	3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?	4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?

(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)		ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.	Y Risgiau	Effeithiau cadarnhaol	
Nodweddion gwarchodedig	Oedran	Dim effaith o gwbl	Niwtral	Bydd Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg.	
	Anabledd	Effaith fach	Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn ôl yr angen.		
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Hil	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith o gwbl	Niwtral		

	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	Effaith fach	Niwtral	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i fod yn gyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu gweledigaeth y Cyngor a'i nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin 2017–2020.	
	Unrhyw faes arall	Effaith fach	Niwtral		

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?

DO ☒ NADDO ☐

Bydd proses ymgynghori anffurfiol a ffurfiol yn cael ei chynnal fel y nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

		Bydd ymgynghori priodol yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.	
6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r ymgynghori.			
7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.			
8. Adnoddau Dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol			
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)		DYLAI ☐	NA ☒ DDYLAI
Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies		Dyddiad: Mawrth 2019

Y Cynnig

Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.


Cefndir

Ysgol gynradd dwy ffrwd ym mhentref Sanclêr yw Ysgol Griffith Jones. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Y Rhesymeg dros Newid

Data'r Cyfnod Sylfaen

Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng y ffrydiau iaith a nifer y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones rhwng Ionawr 2014-2018.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones gryn dipyn yn is na'r rheiny sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg. Mae nifer y disgyblion yn ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio rhwng 10-23 yn ystod Ionawr 2014-2018 tra bod nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg wedi amrywio rhwng 126-149 o ddisgyblion.

Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae 91% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg ac 9% yn unig sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg (Ionawr 2018).

O gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (305 o ddisgyblion), mae nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 5% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Data'r Ysgol Gyfan

		Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
2018	Cyfrwng Cymraeg	149	101	250
	Cyfrwng Saesneg	15	40	55
	Cyfanswm	164	141	305
2017	Cyfrwng Cymraeg	141	99	240
	Cyfrwng Saesneg	10	38	48
	Cyfanswm	151	137	288
2016	Cyfrwng Cymraeg	137	94	231
	Cyfrwng Saesneg	13	37	50
	Cyfanswm	150	131	281
2015	Cyfrwng Cymraeg	126	80	206
	Cyfrwng Saesneg	23	43	66
	Cyfanswm	149	123	272
2014	Cyfrwng Cymraeg	129	72	201
	Cyfrwng Saesneg	20	37	57
	Cyfanswm	149	109	258

(Data CYBLD Ionawr)

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae nifer y plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn fwy na nifer y plant sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen.

Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar yn y Gymraeg o oedran ifanc.
- Caniatáu i ddisgyblion gael sylfaen gadarn yn y Gymraeg
- Darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Anfanteision

- Gwrthwynebiad posib gan y gymuned leol i'r cynnig
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Mesurau i Lliniaru'r Risgiau
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Griffith Jones ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Griffith Jones.

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Dewis 1 – Y Sefyllfa Bresennol- dim newid i natur y ddarpariaeth

Manteision	Anfanteision
Ni fydd angen proses statudol	Nid yw'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid	Nid yw'n cyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir

Dewis 2 – Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 Dwy Ffrwd)

Manteision	Anfanteision
Cynyddu sgiliau ieithyddol cynnar y disgyblion	Angen proses statudol
Cadw'r hawl i rieni ddewis y cyfrwng iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	
Cefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	

Dewis 3 – Newid natur darpariaeth yr ysgol gyfan (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 Cyfrwng Cymraeg)

Manteision	Anfanteision
Cynhyrchu dinasyddion dwyieithog	Angen proses statudol
Cyflawni nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir	

Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

Ysgolion y gallai'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Griffith Jones effeithio arnynt:

		Ysgol Bro Brynach	Ysgol Gynradd Meidrim	Ysgol Gynradd Bancyfelin	Ysgol Gynradd Llansteffan	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn	Ysgol Gynradd Llanmilo	Ysgol Llys Hywel
Lleoliad yr Ysgol		Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf SA34 0EL	Meidrim, Caerfyrddin SA33 5QN	Bancyfelin, Caerfyrddin SA33 5ND	Caerfyrddin SA33 5LN	Talacharn SA33 4TE	Llanmilo, Pentywyn, SA33 4TU	Hendy-gwyn ar Daf SA34 0QB
Sir		Sir Gaerfyrddin						
Ystod Oedran		3-11	4-11	4-11	4-11	4-11	4-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Gwirfoddol a Reolir	Cymunedol	Cymunedol
Categori laith		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg	Cyfrwng Saesneg	Dwy Ffrwd*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2018)	Oedran Meithrin	12	1	3	4	3	5	14
	Derbyn – B.6	81	20	32	33	55	33	117
	Cyfanswm	93	21	35	37	58	38	131
Nifer y disgyblion ar y	Ionawr 2017	96	24	40	32	60	32	134

gofrestr yn flaenorol	Ionawr 2016	93	21	41	34	61	36	125
	Ionawr 2015	91	20	34	32	64	33	112
	Ionawr 2014	96	22	41	35	67	24	112
Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion	Ionawr 2019	91	19	37	36	58	42	138
	Ionawr 2020	91	17	34	35	63	44	143
	Ionawr 2021	93	20	37	35	61	48	145
	Ionawr 2022	93	21	40	37	55	49	147
	Ionawr 2023	94	21	35	40	54	46	140
Lle		120	54	64	62	118	65	164
Y Gost y Disgybl		£3,543	£6,502	£4,287	£4,155	£4,111	£3,952	£3,727
Cyllideb yr Ysgol		£329,000	£137,000	£150,000	£154,000	£238,000	£150,000	£492,000
Categoriaddio Ysgolion 2018		Melyn	Melyn	Melyn	Melyn	Melyn	Melyn	Gwyrdd
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		A	C	C	B	B	C	B

*Mae Ysgol Llys Hywel yn destun cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg, a welir ar dudalen 74 o'r ddogfen hon.

Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Ansawdd a safonau mewn addysg

Safonau yn y Cyfnod Sylfaen

Defnyddir cyflwyniadau effeithiol gan ddisgyblion, chwarae rôl a gwaith drama i wella hyder wrth gyfathrebu yn y Gymraeg. Ceir tystiolaeth o hyn mewn cystadlaethau rhanbarthol llwyddiannus lle caiff sgiliau cyfathrebu eu barnu. Er enghraifft, mewn Eisteddfodau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau darllen yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu sgiliau ysgrifennu effeithiol trwy gyfleoedd trawsgwricwlaidd wedi'u cynllunio'n ofalus.

Profiadau dysgu ac addysgu

Mae ansawdd y gwaith addysgu ar draws yr ysgol, a'i effaith ar ddysg a chynnydd bron pob un o'r disgyblion yn dda. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei sgiliau Cymraeg wedi iddo/iddi ddechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill gwobr efydd y Siarter Iaith a 'Cymraeg Campus yng Nghyfnod Allweddol 2' ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Ceir system olrhain drylwyr i nodi anghenion pob dysgwr, er enghraifft Talkabout, ChATT a chwarae cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr agored i niwed yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn dangos gallu effeithlon i gynllunio a gweithredu newid a chynnal gwelliant yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r arweinwyr yn effeithiol yn y modd y maent yn dadansoddi ac yn defnyddio'r asesiadau sydd ar gael a'r adroddiadau monitro am ansawdd y dysgu a'r addysgu gan gynnwys sgiliau'r disgyblion. O ganlyniad ceir Adroddiad Hunanwerthuso datblygedig sydd â chyswllt clir â Chynllun Datblygu'r Ysgol. Yn gysylltiedig â'r Adroddiad Hunanwerthuso ceir gweithdrefn fonitro strategol effeithiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gweledigaeth gyffredin er mwyn gwella safonau dysgu ac

addysgu. Mae llawer o'r blaenoriaethau sydd yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol y llynedd wedi cael eu cyflawni.

Mae gan y Llywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ac maent yn effeithiol iawn wrth gynnal a herio perfformiad yr ysgol.

Effaith y cynnig ar yr uchod

Mae Ysgol Griffith Jones yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar draws dwy ffrwd. Caiff y dosbarthiadau meithrin a derbyn eu cynnal yn y Gymraeg yn unig. Mae'r rhieni yn dewis ffrwd iaith o flwyddyn 2 ymlaen. Ar hyn o bryd caiff disgyblion eu haddysgu ar draws 12 dosbarth. Ceir 10 dosbarth cyfrwng Cymraeg a 2 ddosbarth cyfrwng Saesneg. Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy ffrwd yn siarad Saesneg gartref, nid yw hyn yn effeithio ar nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd Gymraeg.

Bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2018

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Griffith Jones yn dangos, o'r 306 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 228 yn byw yn y dalgylch a bod y 78 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd 66 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Griffith Jones yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 228 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Griffith Jones, a'r 66 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 294 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Griffith Jones.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / clwb brecwast / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol yn darparu clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol lle mae cyfran o'r staff yn siarad Cymraeg.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae / Cyngor Cymuned

Mae'r ysgol yn ganolfan ar gyfer nifer o weithgareddau cymunedol. Caiff clybiau cadw'n heini, clwb garddio yn ogystal â chyngherddau eu cynnal yn neuadd yr ysgol o dro i dro e.e. Cyngerdd Cefnogi Pobl â Dementia. Mae'r gymuned hefyd yn manteisio ar gyfleusterau chwaraeon yr ysgol gan gynnwys y clwb pêl-droed a chlwb rygbi Sanclêr.

Effaith y cynnig ar yr ysgol/y gymuned

Bydd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod cymuned Sanclêr yn parhau i ffynnu fel cymuned ddwyieithog a bydd yn helpu i wireddu uchelgaïs genedlaethol Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynharach. Bydd y cynnig yn sicrhau

bod yr holl ddisgyblion yn yr ysgol yn gallu cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ac bydd yn sicrhau cynhwysiant o safbwynt cyfleoedd ieithyddol i ddisgyblion.

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad i addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Sanclêr.

Categori Iaith

Mae Ysgol Griffith Jones yn Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd.

Y Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 96.4% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)', ac roedd 28.6% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 93.8% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac roedd 56.3% wedi cyrraedd o leiaf Lefel 5.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliwyd clybiau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys clwb dawnio gwerin, clwb Masnach Deg a chlwb codio. Cynhelir clybiau chwaraeon trwy gydol y flwyddyn, unwaith eto trwy gyfrwng y Gymraeg gan fod holl staff yr ysgol yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ysgol yn cystadlu'n gyson yng nghystadlaethau'r Urdd, gan gynnwys Cogurdd, chwaraeon a'r eisteddfod. Manteisir yn llawn ar gyfleoedd i berfformio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned e.e. canu yng ngwasanaethau'r eglwys leol, canu yng nghartrefi'r henoed, cymryd rhan yng Ngŵyl Canol y Dref yng Nghaerfyrddin. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Menter Gorllewin Sir Gâr i roi gwybod i rieni am unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned e.e. gwahodd y Fenter i'r Ffair Nadolig i rannu gwybodaeth â rhieni am eu gwaith, rhoi gwybod i rieni am wersi Cymraeg yn y gymuned.

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r

rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yr Asesiad) – y broses i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Chwefror 2019 Dyddiadau adolygu: Chwefror 2020
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Y cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn Gyfrwng Cymraeg.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestru yn unig)		
• Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2018		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.	Mae'r cynnig yn ceisio ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a gweledigaeth yr awdurdod o greu Sir Gaerfyrddin ddwyieithog trwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Griffith Jones.
---	---

Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:- (1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)					
2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolog, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.					
3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?					
4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?					
		Y Risgiau		Effeithiau cadarnhaol	
Nodweddion gwarechodedig	Oedran	Dim effaith o gwbl		Niwtral	
	Anabledd	Effaith fach		Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg.	
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl		Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn ôl yr angen.	
	Hil	Dim effaith o gwbl		Niwtral	

	Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	Effaith fach	Niwtral	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i fod yn gyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu gweledigaeth y Cyngor a'i nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin 2017–2020.	
	Unrhyw faes arall	Effaith fach	Niwtral		

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?		DO ☒ NADDO ☐ Bydd proses ymgynghori anffurfiol a ffurfiol yn cael ei chynnal fel y nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Bydd ymgynghori priodol yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.	
6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r ymgynghori.			
7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.			
8. Adnoddau Dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol			
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)		DYLAI ☐	NA DDYLAI ☒
Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies		Dyddiad: Mawrth 2019

8. Ysgol Llangynnwr

Y Cynnig

Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.


Cefndir

Ysgol gynradd dwy ffrwd yw Ysgol Llangynnwr, a leolir ym mhentref Llangynnwr yng Nghaerfyrddin ac sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Y Rhesymeg dros Newid

Data'r Cyfnod Sylfaen

Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng y ffrydiau iaith a nifer y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr rhwng Ionawr 2014-2018.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ers 2014 a 12 disgybl oedd yno yn Ionawr 2018, sy'n cyferbynnu â nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg. Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae 92% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg ac 8% yn unig sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg (Ionawr 2018).

O gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (310 o ddisgyblion), mae nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 4% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Data'r Ysgol Gyfan

		Cyfnod Sylfaen Rhan-amser	Cyfnod Sylfaen Amser Llawn	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
2018	Cyfrwng Cymraeg	19	123	112	254
	Cyfrwng Saesneg	0	12	44	56
	Cyfanswm	19	135	156	310
2017	Cyfrwng Cymraeg	26	124	105	255
	Cyfrwng Saesneg	0	17	50	67
	Cyfanswm	26	141	155	322
2016	Cyfrwng Cymraeg	12	141	99	252
	Cyfrwng Saesneg	0	14	53	67
	Cyfanswm	12	155	152	319
2015	Cyfrwng Cymraeg	9	141	86	236
	Cyfrwng Saesneg	0	20	55	75
	Cyfanswm	9	161	141	311
2014	Cyfrwng Cymraeg	12	128	72	212
	Cyfrwng Saesneg	0	23	53	76
	Cyfanswm	12	151	125	288

(Data CYBLD Ionawr)

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae'n amlwg bod nifer y plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn fwy na nifer y plant sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen.

Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar yn y Gymraeg o oedran ifanc.
- Caniatáu i ddisgyblion gael sylfaen gadarn yn y Gymraeg
- Darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Anfanteision

- Gwrthwynebiad posib gan y gymuned leol i'r cynnig
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Mesurau i Lliniaru'r Risgiau
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Llangynnwr ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Llangynnwr.

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Dewis 1 – Y Sefyllfa Bresennol- dim newid i natur y ddarpariaeth

Manteision	Anfanteision
Ni fydd angen proses statudol	Nid yw'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid	Nid yw'n cyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir

Dewis 2 – Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 Dwy Ffrwd)

Manteision	Anfanteision
Cynyddu sgiliau ieithyddol cynnar y disgyblion	Angen proses statudol
Cadw'r hawl i rieni ddewis y cyfrwng iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	
Cefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	

Dewis 3 – Newid natur darpariaeth yr ysgol gyfan (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 Cyfrwng Cymraeg)

Manteision	Anfanteision
Cynhyrchu dinasyddion dwyieithog	Angen proses statudol
Cyflawni nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir	

Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

Ysgolion y gallai'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Llangynnwr effeithio arnynt:

		Ysgol y Fro	Ysgol Gynradd Tre Ioan	Ysgol y Dderwen	Ysgol Gynradd Myrddin	Ysgol Gynradd Parc Waundew	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Abergwili	Ysgol Gynradd Nantgaredig	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog
Lleoliad yr Ysgol		Llangyndeyrn, Caerfyrddin SA17 5BW	Tre Ioan, Caerfyrddin SA31 3HS	Heol Spurell, Caerfyrddin SA31 1TG	Heol Disgwyllfa, Caerfyrddin SA31 1TE	Heol y Prior, Caerfyrddin SA31 1NN	Abergwili, Caerfyrddin SA31 2JD	Nantgaredig, Caerfyrddin, SA32 7LG	Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 8BJ
Sir									
Ystod Oedran		4-11	3-11	3-11	3-11	3-11	4-11	3-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Gwirfoddol a Reolir	Cymunedol	Gwirfoddol a Reolir
Categori Iaith		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2018)	Oedran Meithrin	0	74	59	19	28	3	20	9
	Derbyn – B.6	33	400	299	82	169	52	168	90
	Cyfanswm	33	474	358	101	197	55	188	99
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol	Ionawr 2017	32	468	360	104	200	60	198	96
	Ionawr 2016	33	464	347	85	197	66	201	89
	Ionawr 2015	35	428	337	81	192	70	215	89

	Ionawr 2014	40	409	338	89	183	57	224	90
Amcanestynia d ynghylch Nifer y Disgyblion	Ionawr 2019	29	472	354	99	198	53	196	98
	Ionawr 2020	30	476	348	104	200	50	199	101
	Ionawr 2021	30	474	341	113	202	54	191	104
	Ionawr 2022	32	474	353	116	204	49	194	106
	Ionawr 2023	31	472	351	112	199	46	192	106
Lle		41	459	361	105	214	68	232	94
Y Gost y Disgybl		£4,549	£3,075	£3,204	£7,878	£4,287	£3,392	£4,229	£3,314
Cyllideb yr Ysgol		£150,000	£1,396,000	£1,107,000	£1,004,000	£847,000	£187,000	£839,000	£310,000
Catgoreiddio Ysgolion 2018		Melyn	Gwyrdd	Gwyrdd	Melyn	Gwyrdd	Melyn	Gwyrdd	Melyn
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		B	B	A	C	B	C	B	C

Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Ansawdd a safonau mewn addysg

Safonau yn y Cyfnod Sylfaen

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni o leiaf eu cynnydd disgwyliedig yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen. Mae sgiliau corfforol bron yr holl ddisgyblion yn datblygu'n gryf yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd yn effeithiol ar draws pynciau; er enghraifft, mesur amlinell cyrff disgyblion i'r centimetr agosaf yn y Cyfnod Sylfaen. Mae sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cofnodi eu gwaith yn effeithiol ac yn defnyddio amrywiol apiau'n llwyddiannus i gynhyrchu tasgau ysgrifennu creadigol a chelf.

Dengys data'r asesiad sylfaenol bod llawer o ddisgyblion yn dechrau mynd i'r ysgol gyda'r deilliannau disgwyliedig. Mae tueddiadau data yn dangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen dros y 4 blynedd diwethaf. Y llynedd cyflawnodd y rhan fwyaf o'r disgyblion y deiliant disgwyliedig yn y Gymraeg (LCW), Mathemateg (MDT) a Datblygiad Personol a Chymdeithasol (PSD). LCE yw'r pwnc sydd wedi bod yn perfformio orau, gyda phob disgybl yn cyflawni'r deiliant disgwyliedig. Fodd bynnag, oherwydd niferoedd bach y garfan yn y ffrwd Saesneg, gall dehongli tueddiadau data fod yn gamarweiniol. Mae tueddiadau uwch na'r deilliannau wedi cynyddu'n llwyddiannus dros y 4 blynedd diwethaf. Eleni cyflawnodd bron hanner y disgyblion y deiliant uwch mewn LCW, MDT a PSD. Ar wahân i LCE mae'r ysgol wedi cyflawni'n gyson uwch na chyfartaleddau'r Awdurdod Lleol yn y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch. Agweddau at ddysgu; Mae gwella sgiliau llafaredd Cymraeg yn y ffrwd Saesneg a gallu disgyblion y ddwy ffrwd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd anffurfiol, yn flaenoriaeth i'r ysgol.

ESTYN 2017 - *Er bod disgyblion yn ymuno â'r adran Saesneg ag ymwybyddiaeth gadarn o'r iaith Gymraeg, boddhaol yn unig yw cynnydd y rhan fwyaf yn y Gymraeg wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio brawddegau syml yn addas wrth gyfathrebu ag eraill. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio patrymau syml ar lafar wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hunain, ond nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus mewn sgwrs syml. Yn gyffredinol, maent yn darllen yn lled hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa ac ymadroddion i ysgrifennu'n gymwys. Ar draws yr ysgol yn y ddwy ffrwd, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol neu yn ystod amseroedd anffurfiol.*

Profiadau dysgu ac addysgu

Mae ansawdd y gwaith addysgu ar draws yr ysgol, a'i effaith ar ddysg a chynnydd bron pob un o'r disgyblion, yn gyson dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wedi iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill gwobr efydd y Siarter Iaith a 'Cymraeg Campus yng Nghyfnod Allweddol 2' ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith. Mae llafaredd Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Ceir system olrhain drylwyr a chadarn i nodi anghenion pob dysgwr, er enghraifft Talkabout, ChATT a chwarae cadarnhaol. O ganlyniad mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr agored i niwed a disgyblion MAT, yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Ceir Adroddiad Hunanwerthuso datblygedig a thrylwyr sydd â chyswllt clir â Chynllun Datblygu'r Ysgol. Yn gysylltiedig â'r Adroddiad Hunanwerthuso ceir gweithdrefn fonitro strategol drylwyr sydd yn cael effaith effeithiol ar ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwella safonau a llesiant. Mae arferion cydweithio cryf rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a'r staff yn sicrhau cynnydd effeithiol tuag at wella blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r targedau rheoli perfformiad yn gysylltiedig â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac arweinwyr, blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi cryfhau eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysol trwy sefydlu pwyllgor strategol i ganolbwyntio'n drylwyr ar ddata a safonau. O ganlyniad mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol yn dda iawn.

Effaith y cynigion ar yr uchod

Daw lleiafrif o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Caiff y disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae'r rhieni yn dewis ffrwd iaith ar gyfer eu plant o Flwyddyn 1 ymlaen. Ar hyn o bryd caiff disgyblion eu haddysgu ar draws 10 dosbarth. Ceir wyth dosbarth cyfrwng Cymraeg a dau ddosbarth cyfrwng Saesneg. Mae disgyblion sydd â gallu a gwybodaeth rhesymol yn y Gymraeg yn tueddu i ddewis y ffrwd Gymraeg.

Bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwmm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2018

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Llangynnwr yn dangos, o'r 309 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 144 yn byw yn y dalgylch a bod y 165 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd 104 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Llangynnwr yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 144 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Llangynnwr, a'r 104 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 248 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llangynnwr.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / clwb brecwast / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol gan gynnwys clwb brecwast dwyieithog a chlwb ar ôl ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig clwb chwaraeon Cymraeg am ddim i ddisgyblion yn mlynnyddoedd 1 a 2. Cynigir nifer o glybiau ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. Côr, yr Urdd, a rhedeg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal Clwb Gofal Gwyliau sydd ar agor i'r gymuned ehangach ac sy'n cynnig gofal dwyieithog. Ymhellach, mae'r ysgol yn cynnal sesiynau 'Iaith a Chwarae' a gaiff eu rhedeg gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Gâr.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae / Cyngor Cymuned

Mae'r ysgol yn llogi'r ysgol i nifer o sefydliadau allanol. Mae 'Clwb Sbarc' yn defnyddio'r ysgol yn wythnosol i gynnal clwb Cristnogol ar ôl ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i blant fynychu sesiynau 'Gwyddoniaeth Gwyllt' dwyieithog. Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn defnyddio'r ysgol i gynnal eu clwb ffitrwydd Cymraeg. Yn ogystal, mae Sefydliad y Merched yn cynnal cyfarfod misol yn yr ysgol (dwyieithog). Ymhellach, mae Cylch Meithrin y Mudiad Meithrin yn cynnig Addysg Cyfrwng Cymraeg i blant dwy a thair oed yn yr ysgol.

Effaith y cynnig ar yr ysgol/y gymuned

Bydd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod cymuned Llangynnwr yn parhau i ffynnu fel cymuned ddwyieithog a bydd yn helpu i wireddu uchelgais genedlaethol Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynharach.

Mae'r gweithgareddau a nodir yn flaenorol yn rhoi cyfle i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cred yr ysgol fod rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn hanfodol er mwyn meithrin diddordeb pobl yn yr iaith a hefyd rhoi pwrpas ehangach iddi.

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad i addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Llangynnwr.

Categori Iaith

Mae Ysgol Llangynnwr yn Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd.

Y Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 91.2% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)', ac roedd 47.1% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac roedd 32.1% wedi cyrraedd o leiaf Lefel 5.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol gan gynnwys darparu ystod o glybiau allgyrsiol Cymraeg e.e. Côr, yr Urdd, a rhedeg. Ymhellach, mae'r ysgol yn cynnig clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol dwyieithog sydd yn darparu cyfle i'r disgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yr Asesiad) – y broses i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Chwefror 2019 Dyddiadau adolygu: Chwefror 2020
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Y cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn Gyfrwng Cymraeg.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestru yn unig)		
• Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2018		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.	Mae'r cynnig yn ceisio ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a gweledigaeth yr awdurdod o greu Sir Gaerfyrddin ddwyieithog trwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llangynnwr.
---	---

Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:- (1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)					
2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolog, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.					
3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?					
4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?					
		Y Risgiau		Effeithiau cadarnhaol	
Nodweddion gwarechodedig	Oedran	Dim effaith o gwbl	Niwtral	Bydd Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg.	
	Anabledd	Effaith fach	Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn ôl yr angen.		
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Hil	Dim effaith o gwbl	Niwtral		

	Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	Effaith fach	Niwtral	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i fod yn gyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu gweledigaeth y Cyngor a'i nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin 2017–2020.	
	Unrhyw faes arall	Effaith fach	Niwtral		

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?		DO ☒ NADDO ☐ Bydd proses ymgynghori anffurfiol a ffurfiol yn cael ei chynnal fel y nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Bydd ymgynghori priodol yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.	
6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r ymgynghori.			
7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.			
8. Adnoddau Dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol			
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)		DYLAI ☐	NA DDYLAI ☒
Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies		Dyddiad: Mawrth 2019

9. Ysgol Llys Hywel

Y Cynnig

Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.


Cefndir

Ysgol Gynradd dwy ffrwd yn Hendy-gwyn ar Daf yw Ysgol Llys Hywel. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Y Rhesymeg dros Newid

Data'r Cyfnod Sylfaen

Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng y ffrydiau iaith a nifer y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel rhwng Ionawr 2014-2018.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel wedi bod yn is na'r rheiny sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel wedi amrywio rhwng 8-15 o ddisgyblion yn ystod Ionawr 2014-2018 tra bod nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg wedi amrywio rhwng 36-57 o ddisgyblion.

Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae 80% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg ac 20% yn unig sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg (Ionawr 2018).

O gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (131 o ddisgyblion), mae nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 11% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Data'r Ysgol Gyfan

		Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
2018	Cyfrwng Cymraeg	57	27	84
	Cyfrwng Saesneg	14	33	47
	Cyfanswm	71	60	131
2017	Cyfrwng Cymraeg	46	34	80
	Cyfrwng Saesneg	15	39	54
	Cyfanswm	61	73	134
2016	Cyfrwng Cymraeg	52	30	82
	Cyfrwng Saesneg	9	34	43
	Cyfanswm	61	64	125
2015	Cyfrwng Cymraeg	43	25	68
	Cyfrwng Saesneg	13	31	44
	Cyfanswm	56	56	112
2014	Cyfrwng Cymraeg	36	35	71
	Cyfrwng Saesneg	8	33	41
	Cyfanswm	44	68	112

(Data CYBLD Ionawr)

Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar yn y Gymraeg o oedran ifanc.
- Caniatáu i ddisgyblion gael sylfaen gadarn yn y Gymraeg
- Darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Anfanteision

- Gwrthwynebiad posib gan y gymuned leol i'r cynnig
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Mesurau i Lliniaru'r Risgiau
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Llys Hywel ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Llys Hywel.

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Dewis 1 – Y Sefyllfa Bresennol- dim newid i natur y ddarpariaeth

Manteision	Anfanteision
Ni fydd angen proses statudol	Nid yw'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid	Nid yw'n cyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir

Dewis 2 – Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 Dwy Ffrwd)

Manteision	Anfanteision
Cynyddu sgiliau ieithyddol cynnar y disgyblion	Angen proses statudol
Cadw'r hawl i rieni ddewis y cyfrwng iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	
Cefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	

Dewis 3 – Newid natur darpariaeth yr ysgol gyfan (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 Cyfrwng Cymraeg)

Manteision	Anfanteision
Cynhyrchu dinasyddion dwyieithog	Angen proses statudol
Cyflawni nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir	

Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

Ysgolion y gallai'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Llys Hywel effeithio arnynt:

		Ysgol Griffith Jones	Ysgol Bro Brynach	Ysgol Gymunedol Brynconin	Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth	Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarnspeit
Lleoliad yr Ysgol		Heol yr Orsaf, Sanclêr, SA33 4BT	Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0EL	Llandysilio Clunderwen SA66 7SY	Heol Jesse Arberth SA67 7FE	Hendy-gwyn ar Daf, Sir Benfro SA34 0NL
Sir		Sir Gaerfyrddin	Sir Gaerfyrddin	Sir Benfro	Sir Benfro	Sir Benfro
Ystod Oedran		3-11	3-11	3-11	3-11	3-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori Iaith		Dwy Ffrwd*	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Dwy Ffrwd	Cyfrwng Saesneg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2018)	Oedran Meithrin	55	12	15	21	17
	Derbyn – B.6	255	81	68	279	203
	Cyfanswm	305	93	83	300	220
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol	lonawr 2017	288	96	79	301	215
	lonawr 2016	281	93	89	329	224
	lonawr 2015	272	91	84	326	209
	lonawr 2014	258	96	77	332	214
Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion	lonawr 2019	312	91	77	306	233
	lonawr 2020	296	91	75	306	235
	lonawr 2021	295	93	72	306	225

	Ionawr 2022	300	93	68	309	224
	Ionawr 2023	291	94	69	313	224
Lle		337	120	89	330	205
Y Gost y Disgybl		£3,320	£3,543	£3789	£3323	£3163
Cyllideb yr Ysgol		£958,000	£319,000	£310,000	£1,089,000	£762,000
Categoreiddio Ysgolion 2018		Melyn	Melyn	Oren	Melyn	Gwyrdd
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		B	A	C	A	B

*Mae Ysgol Griffith Jones yn destun cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg, a welir ar dudalen 38 o'r ddogfen hon.

Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Ansawdd a safonau mewn addysg

Safonau yn y Cyfnod Sylfaen

Mae datblygiad sgiliau llafar Cymraeg y plant ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen yn gryfder sylweddol. Mae'r disgyblion yn gallu cynnig ymatebion yn fyrfyr ac yn gyflym, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn wirfoddol wrth siarad â'i gilydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu sgiliau llafar ac yn mynegi eu hunain yn hyderus a chyda lefel gynyddol o gywirdeb. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gwneud digon o gynnydd yn eu sgiliau Cymraeg llafar ar draws y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu darllen yn uchel gan wneud hynny'n ystyrlon a chyda goslef briodol, a gwneud defnydd da o'r llais i amrywio'r mynegiant.

Profiadau dysgu ac addysgu

Mae'r dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda mewn sawl ystafell ddosbarth. Lle mae'r addysgu yn dda, caiff bron pob disgybl ei holi'n fedrus, gan weithio ar y lefel briodol, ac mae cyflymdra'r gwersi yn effeithiol. Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio'n dda, gan wneud defnydd priodol o 'Incerts' i lywio'r camau nesaf ar gyfer grwpiau o ddysgwyr. Lle mae defnydd effeithiol o 'Incerts' yn amlwg, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn, gan arddangos cyfnodau hir o ganolbwyntio. Mae llawer o'r gwersi a'r gweithgareddau yn ysgogol ac wedi'u gwahaniaethu'n bwrpasol i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae bron pob athro yn gwneud defnydd effeithiol o staff cymorth ac mae llawer o'r oedolion hyn yn holi'r disgyblion yn dda, gan annog dysgu effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r dosbarthiadau'n darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer eu disgyblion, gyda chydbwysedd iach rhwng dathlu gwaith y disgyblion trwy arddangosiadau deniadol a waliau a chorneli dysgu. Mae bron yr holl staff yn rheoli ymddygiad yn dda, gan drin yr holl ddisgyblion yn deg ac â pharch.

Gwnaed nifer o newidiadau i'r ddarpariaeth awyr agored sydd yn fywiog, yn lliwgar ac yn ddeniadol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau cydweithio yn dda. Er enghraifft, dangosodd grŵp o fechgyn gryn ddyfalbarhad a gwaith fîm ardderchog wrth iddynt adeiladu eu cwch allan o flociau adeiladu mawr.

Mae gan y disgyblion ardaloedd lle gallant fod yn greadigol a cheir ardal bwrpasol er mwyn iddynt berfformio a rhannu eu doniau.

Mae dwyieithrwydd yn gryf ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae pob gwasanaeth yn ddwyieithog ac mae bron pob aelod o staff yn defnyddio'r

Gymraeg yn bwrpasol ac yn effeithiol trwy gydol y dydd. Nid yw addysg Gymraeg yn y ffrwd Saesneg yn gyfyngedig i sesiynau ail iaith. Cyflwynir y Gymraeg ym mhob pwnc trawsgwricwlaidd. Caiff patrymau iaith a geirfa gysylltiedig â thema eu cyflwyno'n naturiol. Mae bron pob disgybl sydd wedi bod yn yr ysgol o'r cychwyn yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu well. Fodd bynnag, mae'r ychydig iawn o hwyrddyfodiaid i'r ysgol yn dylanwadu ac yn effeithio ar y data cynnydd.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Defnyddir arsylwadau athrawon, holiaduron a Speakr i nodi disgyblion nad ydynt yn ymroi i'w dysgu ac mae'r staff yn effeithiol wrth adnabod disgyblion sydd mewn perygl o beidio ag ymroi. O ganlyniad, darperir ymyriadau perthnasol megis 'Chwarae Cadarnhaol', neu mae'r athrawon yn addasu eu dulliau a'u harddulliau i ddiwallu eu hanghenion a'u galwadau. Mae offeryn olrhain ar-lein yr ysgol yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion MAT yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu well yn unol â'u targedau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ac mae'n rhannu gweledigaeth yr ysgol yn dda â'r holl randdeiliaid. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau rheolaethol yr ysgol, er enghraifft trwy sicrhau gwell cysondeb wrth gynllunio ar draws yr ysgol.

Mae adroddiad hunanwerthuso'r ysgol yn agored ac yn onest, gan ddefnyddio amrywiaeth o ganlyniadau monitro i ddod i gasgliadau manwl gywir a chan nodi'n glir y meysydd i'w datblygu. Caiff yr argymhellion eu rhannu â'r holl arweinwyr gan gynnwys y Corff Llywodraethu.

Ceir amserlen fonitro bwrpasol ar waith sy'n cynnwys yr holl arweinwyr a chydlynwyr. Dros y flwyddyn mae'r cyfrifoldeb cynyddol wedi datblygu ymwybyddiaeth y staff o ysgrifennu adroddiadau gwerthuso ac mae wedi rhoi perchenogaeth iddynt ar gynlluniau gweithredu'r ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o'u gwerth a'u pwrpas ac mae cyflymdra'r effaith at ei gilydd yn dda.

Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn datblygu strategaethau i goladu barn y disgyblion ar eu dysgu a'r addysgu, ac maent hefyd yn ystyried ffyrdd o gasglu gwybodaeth am lesiant y disgyblion. Maent hefyd yn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y maes gwaith hwn ac maent yn gwneud defnydd da o holiaduron ar-lein i gasglu gwybodaeth a'u barn. Trwy drafodaethau, mae'r pennaeth wedi adnabod yr angen i ddatblygu rôl gynhwysol y Corff Llywodraethu ym mhrosesau sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd da o gymorth ysgol i ysgol trwy ymweld ag ysgolion tebyg i weld arferion da. Ar hyn o bryd mae'r ysgol hefyd yn gweithio mewn grŵp Ysgolion Dysgu Perfformiad er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu mewn dosbarth cymysg.

Effaith y Cynnig

Mae'r ysgol yn gwella'n gyson o ganlyniad i gyfarwyddyd cadarn a chlr gan y pennaeth. Mae'r arweinyddiaeth wasgaredig wedi datblygu'n effeithiol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at fod gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth glir o ffocws a gweledigaeth yr ysgol. Caiff unrhyw newidiadau arfaethedig eu trafod a'u hystyried er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a datblygiad y disgyblion. Caiff newidiadau bob amser eu cynllunio ar y cyd fel bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn ystod unrhyw newid. Bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwrm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Bydd yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol i ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg o oedran cynnar. Bydd hyn yn darparu ystod ehangach o ddewisiadau i'r disgyblion wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol gynradd. Mae'r pennaeth wedi sicrhau bod yna staff i wireddu'r newid hwn a bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol addas yn sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau i gyflwyno'r cwricwlwm yn y Gymraeg. Bydd yr ysgol yn parhau i gynnal safonau a phrofiad dysgu ac addysgu da ar gyfer y disgyblion. Bydd y newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynharach a rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ysgol sy'n gwella'n barhaus.

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2018

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Llys Hywel yn dangos, o'r 131 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 105 yn byw yn y dalgylch a bod y 26 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2018, roedd 24 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Llys Hywel yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 105 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Llys Hywel, a'r 24 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 129 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llys Hywel.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / clwb brecwast / llyfrgell gymunedol

Cynigir nifer o glybiau yn Ysgol Llys Hywel. Mae gan yr ysgol glwb brecwast a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n hyrwyddo ethos Cymreig sy'n dathlu diwylliant Cymru trwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Ceir hefyd glwb ar ôl ysgol a gaiff ei redeg gan siaradwyr Cymraeg lle darperir amrywiol weithgareddau ar gyfer y disgyblion, yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar safle'r ysgol ceir Ysgol Feithrin Hywel Dda sydd ar hyn o bryd yn darparu hyd at 30 awr o ofal ac addysg i ddisgyblion o ddwy a hanner oed i fyny trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r ddarpariaeth hon ceir Cylch Ti a Fi sy'n cynnig cyfleoedd anffurfiol i rieni er mwyn iddynt sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth staff y Cylch Meithrin. Ceir cysylltiadau cryf â Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr a chaiff y camau iaith trwy chwarae eu cynnig i'r disgyblion arfaethedig cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae'r fenter hefyd yn darparu gwersi i oedolion yn y pentref er mwyn cefnogi'r rhieni.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae / Cyngor Cymuned

Mae'r ysgol yn rhan o gymuned sydd â llawer o sefydliadau cymunedol felly nid oes llawer o bobl yn defnyddio adnoddau'r ysgol. Mae'r mudiad Ffermwyr Ifainc lleol yn defnyddio'r cyfleusterau yn achlysurol i gynnal ymarferion actio. Ceir clwb taekwondo yn yr ysgol, ond caiff hwn ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg.

Effaith y cynnig ar yr ysgol/y gymuned

Mae cymuned Hendy-gwyn ar Daf yn un ddwyieithog ei natur. Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu elwa'n llawn o'r gymuned y maent yn perthyn iddi, mae'n hanfodol bod ganddynt sgiliau sylfaenol cadarn i allu cyfathrebu'n anffurfiol yn y Gymraeg. Bydd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod cymuned Hendy-gwyn ar Daf yn parhau i ffynnu fel cymuned ddwyieithog a bydd yn helpu i wireddu uchelgais genedlaethol Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynharach.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad i addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Hendy-gwyn ar Daf.

Categori Iaith

Mae Ysgol Llys Hywel yn Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd.

Y Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 86.7% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)', ac roedd 40% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2018, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac roedd 100% wedi cyrraedd o leiaf Lefel 5.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r ysgol yn cymryd rôl weithredol wrth weithredu cynllun y Siarter Iaith sydd yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd anffurfiol. Rydym eisoes wedi ennill cydnabyddiaeth efydd ac rydym yn gweithio tuag at y wobr arian. Mae'r ysgol hefyd yn weithgar iawn gyda mudiad yr Urdd sy'n trefnu teithiau preswyl blynyddol i'w gweryslyoedd yn Llangrannog a Chaerdydd ar gyfer disgyblion o'r ddwy ffrwd, cystadlu mewn nifer o weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd rhan yn yr Eisteddfod Gylch, yr Eisteddfod Sir a'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Mae disgyblion o'r ddwy ffrwd hefyd yn cael cyfleoedd i fynd i Jambori'r Urdd. Mae'r ysgol yn cynnal clybiau gweithgareddau bob wythnos. Cymraeg yw cyfrwng ieithyddol y clybiau hynny a thrwy hyn gallant weld bod y Gymraeg yn perthyn mewn cyd-destun celf, cynaliadwyedd, coginio, creadigol a chwaraeon. Mae'r ysgol yn aml yn gwahodd cwmnïau allanol i ddod i redeg gweithdai drama ac i gynnal perfformiadau ar gyfer y disgyblion.

Cynhelir y perfformiadau a'r gweithdai hyn trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod y disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith fyw.

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r

rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yr Asesiad) – y broses i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Chwefror 2019 Dyddiadau adolygu: Chwefror 2020
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn Gyfrwng Cymraeg.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestru yn unig)		
• Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2018		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.	Mae'r cynnig yn ceisio ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a gweledigaeth yr awdurdod o greu Sir Gaerfyrddin ddwyieithog trwy gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llys Hywel.		
Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-	2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith	3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?	4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?

(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)		ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.	Y Risgiau	Effeithiau cadarnhaol	
Nodweddion gwarchodedig	Oedran	Dim effaith o gwbl	Niwtral	Bydd Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg.	
	Anabledd	Effaith fach	Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn ôl yr angen.		
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Hil	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		

	Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	Effaith fach	Niwtral	Y cynnig yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i fod yn gyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu gweledigaeth y Cyngor a'i nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin 2017–2020.	
	Unrhyw faes arall	Effaith fach	Niwtral		

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?

DO

☒

NADDO

☐

Bydd proses ymgynghori anffurfiol a ffurfiol yn cael ei chynnal fel y nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd ymgynghori priodol yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.

6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r ymgynghori.		
7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.		
8. Adnoddau Dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol		
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)	DYLAI ☐	NA DDYLAI ☒
Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies	Dyddiad: Mawrth 2019

